ROBERTS, JOHN ('Alaw Elwy,' ac wedi hynny 'Telynor Cymru'; 1816 - 1894), cerddor

Enw: John Roberts
Ffugenw: Alaw Elwy, Telynor Cymru
Dyddiad geni: 1816
Dyddiad marw: 1894
Priod: Eleanor Alabama (née Wood Jones)
Plentyn: Mary Ann Wood (née Roberts)
Plentyn: Sarah Wood (née Roberts)
Plentyn: Ann Roberts
Plentyn: Lloyd Wynne Roberts
Plentyn: Abraham Roberts
Plentyn: Madoc Roberts
Plentyn: John Roberts
Plentyn: James England Roberts
Plentyn: Reuben France Roberts
Plentyn: Albert Roberts
Plentyn: Ernest Roberts
Plentyn: Charles Roberts
Plentyn: William Roberts
Rhiant: Sarah Lewis (née Wood)
Rhiant: John Robert Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Rhiwlas Isaf, Llanrhaeadr, ger Dinbych, mab John Roberts o Bentrefoelas, baledwr a fu ym mrwydr Waterloo, ac a oedd (meddir) yn gefnder i John Roberts yr almanaciwr. Ei fam oedd Sarah, ferch William Wood, a chwaer i Archelaus Wood.

Dechreuodd ei yrfa yn y Gatrawd 23 ('Royal Welch Fusiliers'), a bu ynddi am naw mlynedd a hanner. Wedi ymryddhau o'r fyddin, ymsefydlodd yn y Drefnewydd, ac yno y bu byw hyd ei farwolaeth. Dysgwyd ef i ganu'r delyn gan frawd ei fam.

Yn 1836 priododd Eleanor Wood Jones, merch Jeremiah Wood Jones.

Bu'n ddisgybl i Richard Roberts, Caernarfon, a daeth yn delynor enwog ac yn ganwr penillion rhagorol. Enillodd y delyn deirres yn eisteddfod y Fenni, 1842, a'r brif wobr yn 1848. Enillodd y delyn yn eisteddfod Caerdydd, 1850. Cafodd yr anrhydedd

o ganu'r delyn o flaen y frenhines yn Portsmouth, 1834, ac yn Winchester ddwywaith (1835), yn 1847 o flaen y dug Constantine o Rwsia (yn Aberystwyth), a brenin Belgium (yn Abertawe, 1848). Dysgodd naw o'i blant i ganu'r delyn, y ffidil, a'r ffliwt, a rhoesant gyngerdd o flaen y frenhines yn y Pale, Llandderfel, yn 1889. Rhoddodd heibio y ffugenw 'Alaw Elwy,' ac yn arwest farddol Glan Geirionydd urddwyd ef gan 'Gwilym Cowlyd' yn 'Telynor Cymru' yn 1886.

Siaradai Romani'n rhugl. Bu farw 11 Mai 1894.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Alawon fy Ngwlad (1896)

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (1913)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Darllen Pellach

Romani Cymru / Romany Wales Project The Roberts Tribe

Wyn Thomas, John Roberts: 'Telynor Cymru' 1816-1894, *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 1, 1996, tt.164-171

Erthygl Wicipedia: John Roberts

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: John Roberts ('Telynor Cymru') Papers

VIAF: 18491215

Wikidata: Q28361398

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu